

Gwers 34 – Stori y ddafad golledig

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Luc 15:3–7

Ymae'r bymthegfed bennod o Luc yn enwog am y tair dameg a lefarodd Iesu, sy'n sôn am golli a chael. Collodd gwraig ddarn arian pwysig, aeth mab ieuengaf ar goll, ac yma aeth dafad ar ddisberod. Fel y gwelsom yng ngwers 33, roedd Iesu'n feistr ar ddefnyddio darluniau o fywyd bob dydd, digwyddiadau cyfarwydd i bwy bynnag a oedd yn gwrando arno.

Cynulleidfa Iesu yma oedd casglwyr trethi a phechaduriaid. Roedd casglwyr trethi yn amhoblogaidd oherwydd eu bod yn gweithio i'r Rhufeiniaid. Y pechaduriaid oedd y rhai anfoesol yn y gymdeithas neu'n dilyn gwaith a ystyrir yn anghymarus â'r Gyfraith. Ac yr oedd y Phariseaid a'r ysgrifenyddion yn grwgnach oherwydd bod Iesu'n treulio amser ac yn bwyta gyda hwy. Nid oedd Iesu am adael i agwedd y Phariseaid ymyrryd dim â'i weinidogaeth; daeth i gynorthwyo pechaduriaid, ac ni allai wneud hynny heb eu cyfarfod.



Yn y ddameg, y mae dod o hyd i'r ddafad golledig yn brofiad llawen. Gesyd bugail y ddafad ar ei ysgwyddau ac nid yw'r baich trwm yn peri iddo achwyn.

Roedd y darlun o fugail yn gadael ei braidd i fynd i chwilio am un ddafad a oedd ar goll yn un cyfarwydd; byddai'r naw deg a naw yn ddiogel ond ni fyddai'r praidd yn gyflawn heb yr un ar goll. Yr un modd bydd Duw yn llawenhau mwy am yr un a ddychwelodd na'r llawer sydd eisoes yn y gorlan.

Gwelodd yr ysgolhaig Iddewig, G G Montefiore, ddysgeidiaeth newydd a chwyldroadol yn y ddameg hon, sef bod Duw yn chwilio am bechadur ac yn ei hebrwng adref. Cytunai'r rabiniaid fod Duw yn croesawu pechadur edifeiriol, ond dyma syniad newydd, sef bod Duw yn Dduw sy'n chwilio, ac yn cymryd y cam cyntaf, tuag at adfer y pechadur.

Defaid a Bugeiliaid

Ers dyddiau Abraham, cyfrifid cyfoeth dyn yn ôl swm yr anifeiliaid a feddai arnynt ac yr oedd y ddafad yn amlwg iawn ymysg yr anifeiliaid hynny. Cedwid defaid am eu gwlan a'u crwyn i wneud dillad, a defnyddid eu cynn fel llestr. Bwyteid y cig ar adegau arbennig yn enwedig Y Pasg (Exodus 12:9). Pan fyddai porfa gartref yn mynd yn brin rhaid oedd i'r bugail fynd i chwilio am borfeydd eraill. Golygai hynny grwydro ymhell, ac yn aml wynebid peryglon megis anifeiliaid gwylltion o'r jyngl. Yr oedd llewod ac eirth yn gyffredin (Barn. 14:8) ac y mae helyntion Dafydd yn amddiffyn ei ddefaid yn hysbys (1 Sam. 17:34–46). Roedd yr udflaidd a'r siacal yn gyffredin hefyd. Fel arfau defnyddiai'r bugail wialen a ffon dafl. Roedd gwialen yn fwy o bastwn trwm gyda darnau o fflint wedi eu bwrw ynddi i'w gwneud yn fwy effeithiol. Gwnaed y ffon dafl o god ledr yn ddigon mawr i ddal carreg tua modfedd a hanner o led, yn rhwym wrth ddau ddarn o gortyn lledr rhyw ddwy droedfedd o hyd. Pan chwifiai'r bugail y ffon dafl o amgylch ei ben byddai grym allgyrchol yn dal y garreg yn ei lle hyd nes y byddai'n gollwng un o'r cordynau. Gyda phrofiad, gallai bugail daro unrhywbeth neu unrhyw un, e.e. Goliath. Pan oedd dafad yn sâl neu wedi anafu, byddai'r bugail yn ei chario ar ei ysgwyddau.



Aeth un o ddefaid y bugail ar goll.
Dyma saith o'r defaid. Pa un sy'n wahanol?
Darllen Luc 15:4-5.

Gwers 34 – Stori'r ddafad colledig

Y Ddafad a aeth ar goll | Luc 15:1–7

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 144



Gwers 34

Stori'r ddafad golledig

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Stori'r ddafad golledig tud 144

BEIBL LLIW STORI DUW

Y bugail da tud 248

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Y bugail da tud 116

BEIBL LLIW Y PLANT

Colli a chael tud 238

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Y ddafad aeth ar goll tud 187

BEIBL BACH I BLANT

Dafad ar goll tud 378

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU

Y ddafad golledig tud 326

I Ddechrau

Gêm dal

Bydd angen cardiau bach gyda'r gair "sori" a chardiau bach gyda'r gair "maddeuwyd" wedi'u hysgrifennu arnynt (tua 20 o bob un).

Dewiswch un o'r plant i fod yn "ddaliwr." Mae'r daliwr yn dal y cardiau "sori" a chithau'r cardiau "maddeuwyd." Mae'r plant eraill yn rhedeg o gwmpas (neu yn sgipio/hercian) tra bod y daliwr yn ceisio eu dal. Os byddant yn cael eu dal byddant yn cael cerdyn "sori" gan y daliwr. Maen nhw'n dod â'r cerdyn atoch a'i gyfnewid am gerdyn "maddeuwyd." Chwaraewch am amser penodol cyn newid y daliwr. Ar y diwedd cyfrwch pwy sydd gyda'r nifer fwyaf o gardiau "maddeuwyd." Trafodwch fod yn 'sori', a derbyn maddeuant gan ffrindiau, aelodau o'r teulu a phobl eraill.

Yr Hanes

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Darllenwch yr hanes eto. Gofynnwch i'r plant wrando yn ofalus am y geiriau dafad/defaid, a bob tro y byddant yn eu clywed, mae'r plant i frefu fel defaid. Bob tro y clywir y gair "bugail", maen nhw i alw "mae un ar goll!"

Cymhwyso

Esboniwch fod Iesu wedi adrodd y stori hon, a llawer o rai eraill, i helpu ei ffrindiau i ddeall pam yr oedd wedi dod i'r byd. Rhowch y goron ar ben un o'r plant. Trafodwch beth yw rôl brenin/brenhines. Y pwynt y byddwch angen ei bwysleisio yw bod brenin yn llywodraethu dros wlad/gwledydd a phobl benodol, dyma ei deyrnas.

Esboniwch fod Duw am fod yn frenin yn ein bywydau ni. Mae Duw wedi ein creu, mae'n ein caru, mae'n gwybod beth sydd orau inni. Ond dydyn ni ddim yn gallu cael Duw yn frenin ac Iesu yn ffrind tra bod pechod yn ein calonnau. Trafodwch beth yw pechod – torri rheolau Duw mewn gair, meddwl neu weithred. Esboniwch fod pob person yn cael eu geni â phechod tu mewn. Mae Iesu yn gallu maddau ein pechodau a chymryd y pechod i ffwrdd, ac mae'n gallu ein helpu i gadw rheolau Duw. Pan fyddwn yn cyffesu ein pechodau a gofyn i Iesu am faddeuant, mae Duw yn dod yn frenin arnom ac rydym yn dod yn aelodau o'i deyrnas ef.

Adnod i ddysgu

"Daeth Mab y Dyn i geisio ac i gadw'r colledig," (Luc 19:10).

Copiwch yr adnod, un gair ar bob darn unigol o bapur siâp cylch. Rhifwch bob cylch yn ôl trefn yr adnod, h.y. bydd y gair "Daeth" yn rhif 1, y gair "Mab" yn rhif 2 ayyb. Ychwanegwch gylchoedd gwag hefyd. Trowch y cylchoedd ben i waered ar fwrdd o'ch blaen. Gadewch i'r plant gymryd tro i droi un o'r cylchoedd. Mae'n rhaid dod o hyd i'r geiriau yn eu trefn. Os ydyn nhw'n dewis gair anghywir, maen nhw'n ei droi'n ôl. Rhowch wobwr fechan (fferen, darn o ffrwyth) i'r plentyn pan fyddant yn dewis y gair cywir. Ar ôl dod o hyd i'r geiriau i gyd, darllenwch drosto sawl gwaith. Os oes gennych grŵp mawr, gallwch eu rhannu'n dimoedd gyda set o eiriau'r un. Rhowch wobwr i'r tîm cyntaf i ffrurfio'r adnod. 'Mab y dyn = enw arall am Iesu.'

Cân

"Iesu 'dyn ni'n canu dy glod" (Yr Alfa a'r Omega, Curiad, Mai 2008)

Adnoddau Ychwanegol**Crefft**

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Iesu'n chwilio am oen coll tud.132

Tafleenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres B – Damhegion

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 42: Y Ddafad aeth ar goll

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 47: Dafad ar Goll

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 342

Llyfrau Stori

Hwyl Jig-so: Y Ddafad Golledig
Ifan Tom yn colli ei gath
Pam fod y bugail yn hapus?

